# Atodiad 1 – Dadansoddiad o'r Opsiynau Ymestyn 2026

## Opsiwn 1: Gweddill Tregarth a Mynydd Llandygai

**Manteision**

- Baich achosion cymharol isel gyda 88% o deuluoedd yn cael eu hasesu fel rhai ag anghenion isel.
- Nifer fechan o blant (tua 10 y flwyddyn), gan wneud gweithrediad yn gymharol syml i gynnwys i ardal bresennol Bethesda.
- Gallai ehangu mynediad i ofal plant 2 oed gynyddu cyfranogiad mewn addysg gynnar. Gellir gwneud hyn gyda ymestyniad gofal plant Cam 3

**Anfanteision**

- Tystiolaeth gyfyngedig o angen uchel neu fregusrwydd cymhleth.
- Gallai adnoddau gael eu targedu'n fwy effeithiol at ardaloedd â lefelau uwch o angen.

## Opsiwn 2: Bangor Uchaf, Glyder a Deiniol

**Manteision**

- Potensial i gefnogi tua 20 o blant y flwyddyn.
- Safle canolig ar ddata Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD).
- Yn cynnig cyfle i ymestyn mynediad gofal plant 2 oed. Gellir gwneud hyn gyda ymestyniad gofal plant Cam 3. Nifer o ddatblygiadau cyfalaf wedi digwydd ac ar y gweill yn y ddinas.

**Anfanteision**

- Mae 88% o'r achosion yn cael eu hasesu fel rhai ag anghenion isel.

## Opsiwn 3: Gweddill Cadnant a Pheblig

**Manteision**

- Gallai ehangu mynediad i ofal plant 2 oed mewn ardal ychwanegol. Gellir gwneud hyn gydag ymestyniad gofal plant Cam 3

- Byddai teuluoedd ag anghenion uwch yn parhau i gael cefnogaeth 'outreach'.

**Anfanteision**

- Nid yw'r angen am wasanaethau Dechrau'n Deg yn amlwg.
- Mae nifer yr atgyfeiriadau outreach yn isel.
- Mae'r rhan fwyaf o deuluoedd yn cael eu hasesu fel rhai ag anghenion isel.

## Opsiwn 4: Llanuwchllyn a Llanycil

**Manteision**

- Byddai'n darparu mynediad at wasanaethau i gymunedau gwledig ychwanegol.
- Tua 18 o blant y flwyddyn fyddai'n gymwys.
- Gallai ehangu mynediad i ofal plant 2 oed mewn ardal ychwanegol o gwmpas Bala. Gellir gwneud hyn gydag ymestyniad gofal plant Cam 3

**Anfanteision**

- Mae'r holl achosion presennol yn cael eu hasesu fel rhai ag anghenion isel.
- Tystiolaeth gyfyngedig o angen cymhleth neu uchel.

## Opsiwn 5: Nefyn a Morfa Nefyn

**Manteision**

- Tua 15 o blant y flwyddyn yn gymwys.
- 94% o'r achosion yn rhai ag anghenion isel ac felly byddai gweithredu'n gymharol syml.
- Datblygiad cyfalaf newydd ar y gweill erbyn 2027. Gellir cynnig llefydd gofal plant i blant 2 oed gydag ymestyniad gofal plant Cam 3

**Anfanteision**

- Lefel gymharol isel o anghenion cymhleth.
- Llai o dystiolaeth o fregusrwydd o gymharu â rhai ardaloedd eraill.

## Opsiwn 6: De a Gogledd Pwllheli

**Manteision**

- Baich achosion sylweddol uwch na'r ardaloedd eraill, gyda 57 plentyn yng Ngogledd Pwllheli a 34 yn Ne Pwllheli. Haws i sefydlu tîm Dechrau'n Deg i'r ardal gyda baich achos uwch.
- 13 plentyn ag anghenion meddygol neu ADY ar draws y ddwy ardal.
- 12 plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar draws y ddwy ardal.
- Presenoldeb cryf o dai cymdeithasol sy'n awgrymu lefelau uwch o fregusrwydd economaidd a chymdeithasol.
- Prosiect cyfalaf ar y gweill ar safle Ysgol Cymerau fydd yn cryfhau cynaliadwyedd y ddarpariaeth gofal plant yn y tymor hir a hwyluso integreiddio gwasanaethau.
- Cael presenoldeb gwasanaethau Dechrau'n Deg yn Nwyfor

**Anfanteision**

- Mwy o alw posibl ar adnoddau staffio oherwydd lefel uwch yr angen.